Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-09-13: 18 Mawrth 2013**

Mae’r Pwyllgor yn cyflwyno’r adroddiad a ganlyn i’r Cynulliad:

## 1. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

***Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol***

**CLA224 – Gorchymyn Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Dyfeisiadau a Gymeradwyir) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe’i gwnaed ar: 26 Chwefror 2013.
Fe’i gosodwyd ar: 28 Chwefror 2013.
Yn dod i rym ar: 25 Mawrth 2013.

**CLA226 – Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe’i gwnaed ar: 27 Chwefror 2013.
Fe’i gosodwyd ar: 28 Chwefror 2013.
Yn dod i rym ar: 1 Medi 2013.

**CLA227 – Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe’i gwnaed ar: 26 Chwefror 2013.
Fe'i gosodwyd ar: 28 Chwefror 2013.
Yn dod i rym ar: 25 Mawrth 2013.

**CLA228 – Rheoliadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013**

Y weithdrefn negyddol.
Fe’u gwnaed ar: 27 Chwefror 2013.
Fe'i gosodwyd ar: 28 Chwefror 2013.
Yn dod i rym yn unol ag adran 1(1).

**CLA230 – Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe’u gwnaed ar: 27 Chwefror 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 5 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 8 Ebrill 2013.

**CLA231 – Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe’u gwnaed ar: 4 Mawrth 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 6 Mawrth 2013.
Yn dod i rym ar: 6 Ebrill 2013.

Nododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â nhw.

## 2. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

***Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol***

**CLA229 – Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013**
Y weithdrefn gadarnhaol.
Fe’i gwnaed ar: dyddiad heb ei nodi.
Fe’i gosodwyd ar: dyddiad heb ei nodi.
Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1.

Mae'r adroddiad mewn perthynas â'r Gorchymyn ynghlwm yn Atodiad 1.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r Gorchymyn.

***Offerynnau Cyfansawdd y Weithdrefn Penderfyniad Negyddol***

**CLA225 - Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013**
Y Weithdrefn Negyddol Cyfansawdd.

Fe'u gwnaed ar: 26 Chwefror 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 28 Chwefror 2013.
Yn dod i rym ar: 25 Mawrth 2013.

Mae'r adroddiad mewn perthynas â'r Gorchymyn ar gael yn Atodiad 2.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r Rheoliadau.

***Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol***

**CLA239– Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2013**
Y weithdrefn negyddol.
Fe'u gwnaed ar: 12 Mawrth 2013.
Fe'u gosodwyd ar: 12 Mawrth 2013.
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1.

Mae'r adroddiad mewn perthynas â'r Gorchymyn ynghlwm yn Atodiad 3.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r Rheoliadau.

*Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o ddwy eitem nesaf y cyfarfod, tan 3pm, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(iv), i ystyried ei adroddiad drafft ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) a phapur cwmpasu'r ymchwiliad i rôl Cymru ym mhrosesau'r UE wrth wneud penderfyniadau.*

## 3. Tystiolaeth ynghylch yr Ymchwiliad i Ddeddfu a'r Eglwys yng Nghymru

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Parchedicaf Barry Morgan, Archesgob Cymru ac Esgob Llandaf; Charles Anderson, Cyfreithiwr i'r Eglwys yng Nghymru ac Alex Glanville, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo.

## 4. Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sefydlu seilwaith tanwydd amgen.

*Penderfynodd y Pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(iv), i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth ynghylch yr Ymchwiliad i Ddeddfu a'r Eglwys yng Nghymru.*

Bydd trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor ar gael ar ei wefan yn:

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**20 Mawrth 2013**

**CLA229 - Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013**

**Gweithdrefn: Cadarnhaol**

Sefydla'r Gorchymyn hwn gynllun masnachu allyriadau ynghylch nwyon tŷ gwydr o dan adrannau 44, 46(3), 49 a 90(3) o Atodlen 2 a pharagraff 9 yn Atodlen 3 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Mae a wnelo hyn ag allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol o gyflenwadau nwy a thrydan gan gyrff ac ymgymeriadau cyhoeddus.

**Materion technegol: craffu**

*Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:*

1. *Nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg (Rheol Sefydlog 21.2 (ix))*

2. *Ceir croesgyfeiriad anghywir yn Erthygl 3 a pharagraff 2 o Atodlen 9. Diffinnir "Awdurdod Lleol" yn y darpariaethau hyn fel ymadrodd ag iddo'r un ystyr ag sydd ganddo ym mharagraff 52 o Atodlen 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Dylai'r cyfeiriad fod at baragraff 7. (Rheol Sefydlog 21.2 (vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol).*

**Rhinweddau: craffu**

*Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn.*

**CLA225 - Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013**

**Gweithdrefn: Negyddol**

*Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn cymryd lle Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) 2008 a Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Tâl Cosb, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008.*

*Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi sifil ar dramgwyddau traffig ffyrdd yng Nghymru ac ar gyfer atal cerbydau rhag symud am dramgwyddau parcio, gan gynnwys manylion am gyflwyno taliadau cosb. Maent hefyd yn pennu gofynion mewn perthynas â defnyddio incwm a gafwyd o hysbysiadau taliadau cosb ac yn ymdrin â phenodi dyfarnwyr gan awdurdodau gorfodi.*

*Dylid darllen y Rheoliadau hyn ar y cyd â Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013.*

*Mae'n anghyffredin i'r Arglwydd Ganghellor fod yn ymwneud â deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn unig, ond mae pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â hysbysu am daliadau cosb, penodi dyfarnwyr, a gorfodi taliadau cosb yn parhau i fod gyda deiliad y swydd honno.*

**Materion technegol: craffu**

*O dan Reol Sefydlog 21.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn:-*

*Ni chafodd y Rheoliadau Cyfansawdd hyn, a wnaed gan Weinidogion Cymru a'r Arglwydd Ganghellor, eu gwneud yn ddwyieithog. Cawsant eu gwneud yn Saesneg yn unig. Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn Senedd y Deyrnas Unedig.*

*Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw eglurhad pam na chafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud yn ddwyieithog.*

*Gan eu bod yn gymwys yng Nghymru yn unig, ni all y Pwyllgor weld unrhyw reswm da pan na ddylent fod wedi'u gwneud yn ddwyieithog.*

*[Rheol Sefydlog 21.2 (ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg].*

**Rhinweddau: craffu**

*Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.*

**CLA239 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 (“Rheoliadau 1992”) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â bilio, casglu a gorfodi'r dreth gyngor. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 mewn perthynas â Chymru er mwyn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r amgylchiadau lle y caiff swyddog Cyllid a Thollau ddarparu gwybodaeth i bersonau cymwys, ac at ba ddibenion. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ehangu cymhwysiad y darpariaethau yn Rheoliadau 1992 ynglŷn â chasglu arian am gosbau, ac yn diwygio Rheoliadau 1992 er mwyn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod Deddf Diwygio Lles 2012 wedi cyflwyno credyd cynhwysol.

**Craffu technegol**

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

1. Mae croesgyfeiriad anghywir yn rheoliad 1(1). Cyfeirir at baragraff (3), ond mae’n amlwg mai at baragraff (2) y dylai’r cyfeiriad fod. Mae’n gamgymeriad priodol i’w gywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau.
[Rheol Sefydlog 21.2(vi) – drafftio diffygiol]

**Craffu ar rinweddau**

Ni nodwyd pwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â’r offeryn hwn.-